Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl451

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Darpariaeth gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr Cam-drin Domestig a Gyflawnir gan yr Heddlu**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn 2022, roedd yr argymhellion o'r ymchwiliad ar y cyd gan AHGTAEF, y Coleg Plismona a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a gyhoeddwyd yn eu hadroddiad, sef "Cam-drin Domestig a Gyflawnir gan yr Heddlu - Adroddiad ar uwch-gŵyn y Ganolfan Cyfiawnder Menywod" yn cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Phrif Gwnstabliaid yn sicrhau bod eu darpariaeth o wasanaethau cymorth cam-drin domestig a chanllawiau'n gallu bodloni anghenion penodol pob dioddefydd/goroeswr cam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu, p'un a ydynt yn aelodau o'r heddlu ai peidio.

Mae CHTh eisoes wedi sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori ar Drais Domestig Annibynnol, y Gwasanaeth Cynghori ar Drais Rhywiol Annibynnol a'r Gwasanaeth Dioddefwyr Aml-drosedd, yn darparu cymorth cyhyd ag y bo angen. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod ar ôl ymchwiliad troseddol. Mae adegau pan na fydd unrhyw gamau gweithredu pellach ar gyfer materion troseddol, ond mae materion ymddygiad dal yn cael eu datblygu. Mae'r effaith ar ddioddefydd cam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu'n parhau, ac mae'n debygol o fod angen cefnogaeth drwy'r drefn ymddygiad. Mae dioddefwyr dal yn wynebu croesholi a straen yn ystod gwrandawiadau camymddwyn. Gan hynny, bydd y gwasanaeth yn parhau i roi cefnogaeth hyd at ddiwedd y broses gamymddwyn neu broses debyg hyd nes bydd llai o berygl i'r dioddefydd a gall adael y gwasanaeth yn ddiogel.

Mae swyddogion SCHTh a chydweithwyr o Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi bod mewn trafodaeth barhaus gyda darparwyr gwasanaeth i archwilio i'r ffyrdd gorau o gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu.

Cynigir bod Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio'r gwasanaeth TABW, sydd ar gael yn Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent, o 1 Ebrill 2026, i dreialu llwybr cyfeirio ar gyfer dioddefwyr o Ddyfed-Powys. Sefydlwyd y gwasanaeth fel ymateb wedi'i deilwra i'r argymhellion gwreiddiol, ac mae'n gallu ehangu cyflenwi i'r rhanbarth drwy ddarparu rôl Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig wedi'i lleoli yn Nyfed-Powys.

Cost elfen Dyfed-Powys o'r gwasanaeth yw £43,187 y flwyddyn, gan adlewyrchu'r staff, goruchwylio a rheoli sydd angen ar gyfer y garfan o ddioddefwyr. Darperir hyn o gyllideb gomisiynu CHTh.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso yn ystod 2026/27 i asesu maint y galw a'r lefelau gwasanaeth sydd angen.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Argymhelliad:**
Mae CHTh yn cymeradwyo cyllid o £43,187 ar gyfer 2026/27 i roi cefnogaeth i ddioddefwyr Cam-drin Domestig a Gyflawnir gan yr Heddlu yn  Nyfed-Powys.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 22/04/2026**